

Darlleniad/Reading: Job 36:1-10; 22-33

Gweddi / Prayer:

Duw a Thad ein Harglwydd Iesu, deuwn â'n moliant a'n haddoliad i Ti o'r newydd. Agorwn ein calonnau o'th flaen, gan ddatgan popeth rwyt yn ei olygu i ni. Clyw ein gweddi yn nawr yn enw Crist Iesu.

God, and Father of our Lord Jesus, we bring you our praise and worship anew. We open our hearts before you, proclaiming all you mean to us. Hear our prayer in the name of Christ Jesus. Amen

Myfyrdod / Meditation:

"Aros ychydig, imi gael dangos iti fod eto eiriau i'w dweud dros Dduw." / "Be patient and listen a little while, I have yet to speak on God's behalf." Beibl.net "Bydd yn amyneddgar â fi am ychydig, mae gen i fwy i'w ddweud ar ran Duw." *Job, 36:1*

Chwarae teg i'r hen Elihu, yn llyfr Job – roedd e wedi ceisio bod yn fyr yn ei bregeth. Rwy'n dweud *ceisio*, achos dwi ddim yn credu iddo lwyddo rhywsut, achos aeth ymlaen am ddwy bennod arall o broffwydoliaeth Job!

But Elihu said, "be patient and listen a little while, I have yet to speak on God's behalf." You'll hear some preachers who have their "finally's" and their "lastly's" and concluding observations, which seem to carry on for ever!

Mae'n dda o beth, os oes rhywbeth o werth i'w ddweud, i ddweud hynny mewn cyn lleied o eiriau â phosib.

I also admire Elihu, because he divided his discourse into different portions. If you look at his message in the Book of Job, he speaks for about four consecutive chapters, but it's broken up with natural pauses. I'm sure his message would have reached an unbearable length, had he just carried on without any stop – but he gave his listeners "space to breathe."

Roedd tair neu bedair bregeth fer yn well o lawer nag un hir. Dylai pawb sy'n ceisio addysgu neu drosglwyddo unrhyw wybodaeth i rywun, efelychu Elihu yn hyn o beth – peidiwch dweud gormod ar unwaith.

"Little and often" is the phrase used concerning a lot of things in this life, and as far as our spiritual life is concerned, I think that little and often is much better, and more palatable to the listener than too much for too long!

Mae'n bwysig hefyd, bod Elihu yn gwybod yn union beth oedd e'n gwneud pan wedodd e fod ganddo, "fwy i'w ddweud ar ran Duw". Roedd gwrthrych penodol o'i flaen – roedd ei bwnc a'i destun wedi'i benderfynu drosto fe.

"I have yet to speak on God's behalf." Elihu felt the necessity to do so, he felt that he must speak. He was forced to speak. Duty called him, and impulse compelled him to do so.

Mae'n amlwg ei fod e wedi teimlo cyfrifoldeb i siarad dros Dduw – a responsibility in speaking on behalf of God. Roedd yn anrhyydedd iddo wneud – and honour to do so. Yn faint iddo hefyd – a privilege for Elihu to speak on behalf of God.

Dwi wedi bod yn ffodus iawn mewn bywyd i ffeinido fy hunan mewn sawl sefyllfa “anrhydeddus” a breintiedig iawn – ond heb amheuaeth, heb *iot* o amheiaeth, braint uwchlaw pob braint yw cael cyfle i ddweud gair dros Dduw.

Just as Elihu felt duty bound to speak on God’s behalf, we have a duty set before us in his words today – firstly, to think and ponder it. Secondly, to consider how to do it. And thirdly, simply, to do it at once!

1. Felly’n gyntaf, mae ganddom ni ddyletswydd a braint – “mae gen i fwy i’w ddweud ar ran Duw.” Gadewch inni feddwl amdano / let’s think about it for a minute –

Speech is a great prerogative. We know from research that many other species are able to communicate with each other, but until it’s proved otherwise, I don’t believe any other earthly creature has as much vocabulary and advanced ability of speech as human beings.

Y peth cyntaf i nodi yw'r pwnc aruchel sy'n cael sylw – “I have yet to speak on God's behalf.” The sublime subject of God himself is what requires attention.

Ar yr olwg gyntaf, mae'n ymddangos yn ddiangen braidd i siarad dros Dduw. Mae'n hollalluog, hollbresennol, hollwybodus – pam fo angen i bodau dynol siarad drosto? Does dim angen pledio ei achos e, does dim angen iddo gael ei gyflawnhau ganddon ni meidrolion.

But however divine God’s voice may be, it’s as if humankind is hardened against it – that’s why we need the whole church in one accord, shouting God’s praise and glory – speaking on behalf of God.

Ac onid oes mwy o angen nag erioed y dyddiau ‘ma – onid oes gwirioneddol angen inni godi ein lleisiau mewn un gytgan gref dros Dduw a thros Efengyl ei Fab Iesu?

Even if we choose to be silent about a lot of other things, we should never be unwilling to speak out for our God!

Wrth feddwl am eiriau Elihu, a'r gwaith sy'n cael ei ddisgrifio yn y testun, mae'r alwad yn un bersonol iawn "I have yet to speak on God's behalf."

All voices are needed. No-one who professes to be one of God’s children should be silent. Even those who are conscious of great weakness or unworthiness – everyone is invited to say, “I have yet to speak on God’s behalf.”

Roedd Elihu ei hunan yn cydnabod ei fod yn “crynu” yn wyneb ei anallu ei hun, ond eto ‘gyd, fe agorodd ei enau yn enw'r Arglwydd. Felly, taflwn ni ein hunain i ganol y cyfan, a dweud gydag argyhoeddiad, “Bydd yn amyneddgar â fi am ychydig, mae gen i fwy i’w ddweud ar ran Duw.”

2. “I have yet to speak on God’s behalf.” Having thought of it, let’s now consider how to do it.

Bydd nifer fawr o Gristnogion yn gwneud hynny, yn syml, yn eu byw bob dydd. Yn eu hymddigiad yn gyffredinol, eu sgwrs a'u hymwneud nhw ag eraill.

You remember the famous words on Sir Christopher Wren’s tomb in St. Paul’s Cathedral? “Reader, if you seek his monument – look around you.” Wouldn’t it be nice to think that others could look around us, around our lives and actions, and see a monument and lasting testimony to God’s goodness?

“Fel bo i eraill trwof fi adnabod cariad Duw.”

Roedd William Morris, Caernarfon, y Prifardd a'r cyn Archdderwydd wedi sôn am Tom Nefyn un tro,
“Ei bregeth fwyaf oedd ei fywyd.”

That's the greatest testimony of all, that those round about us may see what religion and Christianity really is, by watching our own lives – I shudder to think how far short of the mark I fall, on so many occasions.

Ffordd arall i wneud hynny yw trwy dystiolaeth bersonol hefyd – i sôn wrth eraill beth yw ein profiadau uniongyrchol ni o Dduw. Dyma ffordd rymus iawn i efengylu, achos does dim modd i ddadlau yn wyneb profiad ac argyhoeddiad personol rhywun.

It's difficult at times to find the right time and opportunity to talk about God and religion in general conversation, but a simple invitation to come along to a church service, (when we are able!) and an opportunity to share fellowship with others, can often “open a door” as it were, and lead to other things.

3. Sy'n fy arwain i at y pwynt olaf, wedi meddwl am y peth, wedi ystyried sut i fynd ati, gadewch i ni wneud rhywbeth amdano – let's do something about it!

And that, in a nut shell, is what I wish to leave with you today. Let's all ask ourselves, “Do *I* have something to say on behalf of God?” “Is it *necessary* that I do so?

Mae 'na gân fach hyfryd, syml gan Tecwyn Ifan, ond cyfoeth o wirionedd yn gynwysedig yn ddi – “Diwrnod newydd arall”

Diwrnod newydd arall,
Cyfle newydd arall
I ddweud rhyw air bach wrth fy Nuw,
I ddweud rhyw air bach dros fy Nuw.

Another new day,
Another new opportunity
To say a little word to my God
To say a little word for my God.

A bydded i Dduw ei hun i roi'r nerth a'r gallu i ni 'gyd i ddweud rhywbeth wrth Dduw a thros Dduw yn ystod yr wythnos newydd hon sy'n agor o'n blaen.

A hynny er gogoniant i'w Enw.

Amen.